




|                      |                       |                    |                     |
|----------------------|-----------------------|--------------------|---------------------|
| tud 3                | tud 6                 | tud 11             | tud 12              |
| <b>Pobl a Phethe</b> | <b>Y Tywydd Gwlyb</b> | <b>Y Gair Olaf</b> | <b>Pencampwraig</b> |

## DIWEDD CYFNOD



Llun gan Ann Jenkins

Ar ôl dros 60 mlynedd yng ngofal yr un teulu, mae Garej Davmor Tal-y-bont bellach wedi newid dwylo. Sefydlwyd y garej yn wreiddiol gan David Pryse Morgan a Bertie Davies yn 1948. Pan ymadawodd yr ysgol yn 15 oed, daeth Gwynfor Davies o Ben-y-groes, Rhydaman, i weithio gyda'i ewythr, David Pryse, ac yn 1976 cymerodd Gwynfor a'i wraig Jennifer y garej drosodd.

Buont yn gyfrifol am adeiladu'r busnes dros y blynyddoedd. Yn ogystal â gwerthu petrol a thrwsio a rhoi gwasanaeth i geir, buont yn llogi ceir a faniau a bysiau mini. Am gyfnod o 20 mlynedd hefyd buont yn rhedeg gwasanaeth galw allan at geir a faniau wedi torri i lawr, gwaith a oedd yn golygu bod ar alwad bedair awr ar hugain y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Mae Gwynfor yn cofio achub llawer o bobl a gafodd anffawd wrth i'w car dorri i lawr, ac yntau'n cael ei alw allan ymhob tywydd. Cofia'n dda am un cwpl a dorrodd i lawr ar eu ffordd o Gonwy i Sir Benfro ryw naw mlynedd yn ôl. Er na fu'r cwpl ond hanner awr yng nghwmni Jen a Gwynfor yn y garej, roeddylt mor ddiolchgar o'r cymorth a gafwyd i drwsio'r car er mwyn cyrraedd pen eu taith nes eu bod yn anfon cerdyn Nadolig atynt bob blwyddyn.

Mae'r ddau wedi gweld llawer tro ar fyd. Roedd y garej flynyddoedd yn ôl yn ganolfan gymdeithasol fywiog. Ar fore Sadwrn byddai llawer o ffermwyr y fro yn ymgasglu am sgwrs, a byddai Jen a Gwynfor yn arfer adnabod pawb a oedd yn byw yn yr holl dai gyferbyn â'r garej, ac yn eu gweld bron yn ddyddiol. Peth arall sydd wedi newid yw'r gystadleuaeth o du'r

archfarchnadoedd wrth werthu tanwydd. Er bod petrol a diesel wedi cael ei werthu yn y garej ers 50 mlynedd, ychydig iawn o elw mae'n gynhyrchu. Rhyw 3 i 4 ceiniog y litr o elw sydd yn y petrol heddiw, sef yr un faint ag oedd 30 mlynedd yn ôl. Ond mae'n bwysig fod y gwasanaeth ar gael gan nad oes ond dwy garej yn gwerthu petrol rhwng Aberystwyth a Machynlleth.

A hwythau bellach yn edrych ymlaen am gael mwynhau cyfnod eu hymddeoliad a threulio mwy o amser yng nghwmni eu hwyres, Megan, mae'r ddau yn ddiolchgar i'w cwsmeriaid ffyddlon am eu cefnogaeth ar hyd y blynyddoedd. Byddant yn ei gweld yn rhyfedd iawn, meddent, yn peidio â gorfod mynd i'r garej bob dydd, gan gynnwys y penwythnosau a'r gwyliau banc. Ond ni fydd gan Jen, meddai, ddim hiraeth ar ôl y gwaith cadw llyfrau a chofnodion treth ar werth!

Bu'r busnes ar werth am 4 blynedd, ac o'r diwedd daeth prynwyr. O ddechrau Tachwedd ymlaen y perchnogion newydd yw'r ddau frawd Steve a Nigel Clark o Lundain. Mewn llythyr a ddosbarthwyd i gwsmeriaid, dywedir bod staff y garej yn trosglwyddo gyda'r busnes, a bod Nia, merch Gwynfor a Jen, yn dod yn rheolwraig gyffredinol. Mae gan y perchnogion newydd brofiad ym myd moduron, a'r gobaith yw parhau i gynnig yr un math o wasanaeth ag sydd wedi bod yn Garej Davmor erioed. Mae cynlluniau ar y gweill i ailwampio blaen y garej a'r siop, a bwriedir gwerthu ceir ail law. Mae'r ddau frawd hefyd yn eu llythyr yn dweud eu bod yn edrych ymlaen at gael byw yn ein plith a dysgu Cymraeg.

## Gwirfoddolwyr Lleol



Gwirfoddolwyr lleol – Steve, Linda ac Eryl – yn clirio'r llwybr at Bont y Felin yn Nhal-y-bont sydd wedi ei hailagor gan y Cyngor wedi'r llifogydd ym mis Mehefin. Ond mae'r glaw yn dal i ddisgyn!

## Papur Pawb

**Golygydd Cyffredinol:** Gwyn Jenkins (01970) 832560  
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion  
golygydd@papurpawb.com  
Cysyllter â golygyddion y mis.

**Tynnu lluniau:**

**GOHEBYDDION LLEOL**  
Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566  
Dilys Morgan, Alltgoch 832498  
Wendy Fuller, Pandi, Ffrwnais (01654) 781312  
Sian Saunders, Is-y-coed, Taliesin 832230  
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont 832592  
Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont 832438  
Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl 832429  
Janet Evans, Cefngweiriog (01654) 781260  
Eirlys Jones, 91 Maes y Deri 832483

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**  
Geraint Pugh, Cysgod-y-Llan, Tal-y-bont 832433  
Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093  
Sian Pugh, Cysgod-y-Llan, Tal-y-bont 832433  
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093  
Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont 832448  
Wendy Fuller, Pandi, Ffrwnais (01654) 781312  
Gwenllian Parry-Jones, Lyn Hammonds  
Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones,

Cyhoeddwr gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth  
Cyngror Celfyddydau Cymru - Bwrdd y Gorllewin a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

## Dyddiadur

### Tachwedd

- 11 Neuadd Goffa Tal-y-bont  
Gwasanaeth Coffa 10.45  
Bethel 2 *Parch Terry Edwards*  
Nasareth 5 *Eifion Roberts*  
Rehoboth 10 *Bugail (C)*
- 13 Cyfarfod Chwirydd Rehoboth  
'Y Meddyg' (Gerwyn Thomas)
- 14 Neuadd Goffa  
Pwyllgor y Neuadd 8 o'r gloch
- 15 Sefydliad y Merched  
'Tŷ Abaty Cwm Hir'
- 18 Bethel 10 *Gweinidog (C)*  
Nasareth 10 *Parch W. J. Edwards*  
Rehoboth 10 *John Hughes*  
Eglwys Dewi Sant 11 *Boreol Weddi*
- 19 Merched y Wawr  
*Gosod Blodau'r Gaef (Marian Weston)*
- 24 Neuadd Goffa Tal-y-bont  
*Ffair Neuadd 2 o'r gloch*
- 25 Bethel 10 *Gwasanaeth Teuluol (Gweinidog)*  
Nasareth  
Rehoboth 5 *Bugail*  
Eglwys Dewi Sant 11  
*Gwasanaeth Deuluol*

### Rhagfyr

- 2 Bethel 5 *Gwenidog*  
Nasareth 10 *Bugail (C)*  
Rehoboth 10 *Rhidian Griffiths*  
Eglwys Dewi Sant 11 *Cymun Bendigaidd*
- 3 Merched y Wawr  
'Adeg y Nadolig' 2 o'r gloch
- 11 Sioe Bantomeim, Cwmni Mega  
'TRYWERYNWS'  
10yb ac 1yp, Neuadd Goffa  
Tal-y-bont
- 12 Sioe Bantomeim, Cwmni Mega  
'TRYWERYNWS'  
10yb ac 1yp, Neuadd Goffa  
Tal-y-bont

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu eich sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech ddanfod yn manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442),  
glenysedwards33@btinternet.com  
o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

## Llythyrau

### Annwyl Gyfaill, TLWS JOHN A CERIDWEN HUGHES

Daeth yr amser unwaith eto i ni ystyried enwau ar gyfer y tlws uchod. Fel y cofiwch, mae'r Urdd wedi derbyn cynnig caredig y teulu i gyflwyno tlws yn flynyddol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i unigolion sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i ieuencid Cymru.

### Hoffwn dynnu eich sylw at y pwyntiau canlynol:

- Gellir ystyried rhywun sydd wedi cyfrannu at waith ieuencid yn y gorffennol ond sydd wedi rhoi gorau iddi erbyn hyn, yn ogystal, wrth gwrs, â rhai sydd yn dal i weithio gyda phobl ifanc.
- Gofynnir i chi ddefnyddio'r ffurflen enwebu briodol sydd ar gael o Swyddfa'r Urdd.

### Dylid ystyried y pwyntiau isod wrth enwebu unigolion:

- Dylai'r gwaith fod trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg neu'n ymwneud ag ieuencid sy'n dysgu'r iaith
- Dylai fod yn waith wyneb yn wyneb â phobl ifanc dros 11 oed a thu allan i gyfundrefn addysg ffurfiol.
- Gall fod yn ymwneud ag unrhyw agwedd o waith ieuencid (diwyllianol, corfforol, dyngarol, cymdeithasol, gyda phobl anabl, gyda dysgwyr, rhoi cyfle i ieuencid gyfrannu, gwaith awyr agored, cyfnewid ac yn y blaen).
- Gall fod yn waith gydag unrhyw fudiad ieuencid.

Os am ffurflen enwebu cysylltwch gyda Enfys Davies, Swyddfa'r Urdd Penhelyg, Gwersyll Llangrannog, Llandysul, Ceredigion ar 01239 652163, neu trwy e-bost – [enfys@urdd.org](mailto:enfys@urdd.org)

Yn gywir  
Efa Gruffudd Jones  
Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru

**Annwyl Olygydd,**  
Roedd yn ddiddorol iawn darllen erthygl Carys Briddon ym *Mhapur Pawb* mis Medi yn sôn am hanes llifogydd a gofnodwyd gan ei thaid. Ar hyn o bryd, mae prosiect sy'n ymchwilio i hanes llifogydd, ac atgofion pobl ohonynt yn ardal yr Elenydd yn cael ei gynnal ym Mhrifysgol Aberystwyth. Gall gwybodaeth ac atgofion pobl a gofnodir mewn dyddiaduron ac ati fod yn ffynhonnell hollbwysig wrth geisio ail-greu hanes llifogydd mewn ardal gyda diffyg offer monitro ond hanes o lifogydd. Os oes unrhyw un â dyddiadur neu gofnodion tebyg o dywydd neu lifogydd hanesyddol, ac yn fodlon i'w rhannu er mwyn cyfrannu at y prosiect yma, byddai hyn o fudd mawr i'r gwaith a byddem yn hynod ddiolchgar. Yn amlwg, mae cofnodion fel hyn yn aml yn rhai personol iawn, a gallwn sicrhau mai dim ond ar gyfer pwrpas yr ymchwil y'u defnyddir. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Hywel Griffiths ([hmg@aber.ac.uk](mailto:hmg@aber.ac.uk)) 01970 622674 neu Llion Parry ([lrp9@aber.ac.uk](mailto:lrp9@aber.ac.uk)).

Yn gywir,  
Hywel a Llion

### FFAIR NADOLIG CASTELL GLANDYFI

Dydd Sadwrn Tachwedd 17  
11-4pm

Mynediad am ddim  
mins peis, coffi, te a gwin  
sbeislyd ar gael

Gwerthwyr – i logi bwrdd  
ffoniwch 01654 781238

### YMGYRCH DIOGELU CYMRU WLEDIG

yn cyflwyno noson gyda  
IOLO WILLIAMS  
Nos Wener 7 Rhagfyr  
7-30pm

Y TABERNACL  
MACHYNLLETH

oedolion £10 /  
plant o dan 16 £2

### FFAIR NADOLIG PLAID CYMRU

8fed o Ragfyr 2012  
Yn y Morlan, Morfa Mawr,  
Aberystwyth  
Rhwyng 10.30 a 2 o'r gloch

Groto Santa a chymeriadau  
eraill  
Cinio, cawl, te a choffi  
Nifer o stondinau crefft

Mynediad am ddim

### FFAIR Y NEUADD

Neuadd Goffa Tal-y-bont  
Dydd Sadwrn 24 Tachwedd  
am 2.00 o'r gloch

Nifer o stondinau  
Cynnyrch cartref, llysiau,  
cacennau, a raffl

Paned a chacen a chlonc

Mynediad yn £1.00

### SIOE ARDDWRIAETHOL LLANGYNFELYN

**Bore Coffi  
stondinau/raffl**

Neuadd Llanfach  
Dydd Sadwrn  
Tachwedd 24, 2012  
10-12

Oedolion: £1  
Plant: am ddim  
yn cynnwys te, coffi, bisgedi  
Croeso cynnes i bawb

Golygyddion y rhifyn hwn  
oedd Bledwyn a Delyth Huws  
gyda Iolo ap Gwynn yn  
dylunio.

Golygyddion y rhifyn nesaf  
fydd Geraint a Sian Pugh  
([geraintowen@gmail.com](mailto:geraintowen@gmail.com))  
a Geraint Evans ([post@garnwen.org.uk](mailto:post@garnwen.org.uk)).

Dylai'r deunydd fod yn llaw'r  
golygyddion erbyn  
Dydd Gwener, 7 Rhagfyr.



Ariennir gan  
Lywodraeth Cymru



## Codi arian

Cynhaliwyd y turnament dartiau blynyddol er cof am Steven Sothgate eleni yn y Llew Gwyn a chasglwyd swm anrhydeddus o £517 tuag at Ambiwlans Awyr Cymru.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Ceri Foulkes o Dre Taliesin a Chris Chaudhuri o Aberporth ar eu dywedd diad yn ddiweddar. Hefyd i Louise Bradley, Maesyderi, Tal-y-bont, sydd wedi dyweddio â James Bunston o Swydd Efrog.

Llongyfarchiadau i David Griffiths, 68 Maesyderi, Tal-y-bont, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 21 oed ar 6 Tachwedd, ac i'w chwaer Rachel a fydd yn dathlu ei phen-blwydd hithau yn 18 oed ar 21 Tachwedd.

## Triniaeth

Da gweld fod Anthony Southgate, Dan y Dderwen, Tal-y-bont, yn gwella ar ôl cael llawdriniaeth ar ei ben-glin yn ddiweddar.

## Dymuniadau da

Dymunwn yn dda i Mrs Lilian Jenkins Penparcau, mam Gwyn Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont sydd wedi bod yn ysbyty Bron-glais.

## Symud tŷ

Mae Mark, Vicky, Ioan a Carys Joseph wedi symud i fyw i Pant-teg, Tal-y-bont.

## Eglwys Mihangel Sant

Cynhaliwyd ocsiwn llysiau a nwyddau yn dilyn y Gwasanaeth Cwrdd Diolchgarwch ar nos Sul 14 Hydref. Fe godwyd dros £200 ar gyfer 'Associated Country Women of the World'. Mae'n achos da sydd yn helpu menwyd yn Affrica a'r Trydydd Byd i ffermio, garddio a chael addysg.

## Capel Nasareth

Llwyddwyd i godi £340.00 yn y bore coffi a gynhaliwyd i gefnogi Viva Guatamala. Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi.

## Ysgol Sul Bethel

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch Ysgolion Sul Bethel, Tal-y-bont a Noddfa, Bow Street yng nghapel Bethel, fore Sul 14 Hydref. Diolch am y Gwenyn oedd thema cyfraniad Ysgol Sul Bethel. Heb waith pwysig y gwenyn yn peillio'r holl blanhigion, coed a blodau ni fyddai bywyd ar gael i ni. Cafwyd darlleniadau, cân

# Pobl a Phethe



## Anrhydeddu cyfraniad oes

Dyfarnwyd un o'r anrhyddedau mwyaf ym myd y ceffylau i Dr Wynne Davies, Bridfa Ceulan, Meisgyn, yn Sioe Ceffyl y Flwyddyn yng nghanolfan yr NEC ym Mirmingham yn ddiweddar. Dyma'r tro cyntaf i'r wobwr 'The Showing World Lifetime Outstanding Achievement Award' ddod i Gymru. Bu Dr Davies, a fagwyd yn Central Stores, Tal-y-bont ac sy'n frawd i Ann Jenkins a Kathleen Richards, yn ohebydd i'r cylchgrawn *Horse and Hound* am gyfnod o drigain mlynedd. Gwasanaethodd fel swyddog cyhoeddiadau Cymdeithas y Merlod a'r Cobiau Cymreig am hanner can mlynedd, a threuliodd dymor fel ei llywydd. Bu'n sylwebu ar y ceffylau ym Mhrif Gylch Sioe Llanelwedd am dros ddeng mlynedd ar hugain, ac mae wedi bod yn feirniad ar amryw o gystadlaethau ar hyd y blynyddoedd. Enillodd lawer o wobrau fel bridwr ceffylau, ac mae rhai o'r ceffylau sydd ganddo heddiw yn ddisgynyddion i feirch a fagwyd gan ewythr ei dad-cu, sef John Thomas, Y Felin, Tre'r-ddôl, yn 1894. Y mae'n cael ei gynorthwyo i redeg y Fridfa gan ei wraig Ruth a'i blant David a Jane a'u teuluuoedd. Mae Dr Davies hefyd yn awdur deuddeg o lyfrau sy'n trafod ceffylau.

a gweddi gan yr ieuencid a'r plant cynradd. Diolch i chi am eich gwaith graenus.

## Cadair eisteddfodol

Llongyfarchiadau i Carys Briddon, Tre'r-ddôl ar ennill cadair Eisteddfod Felindre, Abertawe.

## Cyhoeddi enwau

Mae'n dda cael cyhoeddi enwau'r babanod yr adroddwyd am eu geni yn rhifyn mis Hydref. Ganwyd merch o'r enw Alaw Grug i Dylan a Lynwen, 1 Pentrebach, a bachgen o'r enw Mabon Daniel James i Angharad Griffiths ac Andy, gynt o Nant-ddu.

## Cyfeillion Cartref Tregerddan

Llwyddwyd i godi dros £1000 yn y te moethus a gynhaliwyd ym mis Medi i gasglu arian at Gartref Tregerddan. Pobl Tal-y-bont oedd yn gyfrifol am y stondin gacennau, a llwyddodd y stondin i godi £193. Dymuna Janet a Tegwen Jones ddiolch i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd.

## Rhedeg dros achosion da

Llwyddodd tri o redwyr lleol, Elaine Hughes, Robbie Southgate a Gwenallt Llwyd Ifan, i redeg yr hanner marathon a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Hydref, gan godi arian ar

gyfer elusennau. Roedd Elaine yn codi arian ar gyfer Dr Barnados, Robbie ar gyfer Ffagl Gobaith, a Gwenallt ar gyfer Ymddiriedolaeth Roy Castle (ymchwil cancr yr ysgyfaint). Byddai'r tri yn falch o dderbyn cyfraniadau at yr achosion da hyn a llongyfarchiadau iddynt am eu gorchest.

## Capten

Llongyfarchiadau i Steffan Nutting, Tŷ Hen Henlys, Tal-y-bont, ar gael ei ddewis yn gapten tîm rygbi Coleg y Drindod Caerfyrddin am y tymor hwn.

## I'r fyddin

Dymuniadau gorau i Mark Egan, Gerynant, Bontgoch sydd wedi ymuno â'r Morfilwyr Brenhinol (*Royal Marines*) yn ddiweddar.

## Pantomeim

Ar 10 ac 11 Rhagfyr cynhelir 5 perfformiad o'r sioe bantomeim newydd 'Trywerynws' gan Gwmni Mega yn Neuadd Goffa Tal-y-bont. Ymhlith yr actorion mae un o feibion yr ardal, Ioan Gwyn, Maesgwyn, Tal-y-bont. Gwyliwch allan am y poster i am fwy o fanylion am amseroedd y perfformiadau.

## Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Dylan a Helen Roberts, Llwyngwair, Tal-y-bont, ar enedigaeth merch fach, sef chwaer i Fabien. Nid oedd sôn am enw fel yr oedd y papur yn mynd i'r wasg.

Llongyfarchiadau i Geraint ac Eirian Evans, Garnwen, Tal-y-bont, ar enedigaeth eu hwyrtes gyntaf yng Nghaerdydd. Ganed Martha Ildid Owen i Heledd a Geraint Owen ar 2 Tachwedd, chwaer fach i Llew. Dymuniadau gorau i'r teulu bach.

## Parhad ar dudalen 8 >

### FFRINDIAU CARTREF TREGERDDAN

Cyfarfod Blynyddol yn y Cartref nos Fercher 28 Tachwedd am 7 o'r gloch

Croeso cynnes i bawb

### GYRFA CHWIST DOFEDNOD

Cymdeithas Sioe Tal-y-bont

Nos Fercher 19 Rhagfyr 8.00 o'r gloch yn y Neuadd Goffa

Croeso i bawb

## NOSON STEVE EAVES



Cafwyd noson arbennig yng Nghlwb Nos Wener ym mis Hydref pan groesawyd y canwr Steve Eaves a'i gyfeillion i ddiddanu yn y Llew Du. Roedd yn braf gweld cymaint wedi troi allan, gan fod y Llew yn gyfforddus o lawn.

Mae Steve Eaves wedi bod yn ymwelydd cyson â'r pentref ers 30 mlynedd bellach, ac roedd yn braf clywed nifer o'r hen ffefrynau ganddo (e.e. 'Traws Cambria', 'Pendramwnwgl' a 'Lawr y Lôn'), yn ei set awcwstig, yn ogystal â chlywed nifer o ganeuon newydd sydd wedi eu cyfansoddi'n ddiweddar.

Roedd cyfeiliant y bas dwbl yn ychwanegiad newydd a thrawiadol i'r set, gyda chyfraniad y gitarydd a'r cyd-gyfansoddwr, Elwyn Williams, yn allweddol i greu sain unigryw Steve Eaves.

Roedd hon yn noson i'w chofio, a gobeithio na fydd rhaid aros yn rhy hir cyn i Steve a'i fand ddod i'n diddanu unwaith eto.

Siop y Pethe  
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau  
(01970) 617120



## Merched y Wawr Tal-y-bont



Estynnodd Diana Jones groeso i'r newyddiadurwr Cemlyn Davies, Penrhyn-coch, i'r cyfarfod ar nos Lun, 15 Hydref. Ef yw un o ohebyddion y BBC yn y canolbarth, ac mae'n wyneb a llais cyfarwydd ar raglenni Wales Today a Radio Wales. Bu'n gweithio gyda'r BBC yng Nghaerdydd am gyfnod cyn dod yn ôl i weithio i'r canolbarth a golyga ei swydd bresennol ei fod yn gohebu dros ardal eang gyda llawer iawn o deithio ynghlwm â'r gwaith. Mae'r swydd yn cynnig amrywiaeth o brofiadau iddo gan fod y newyddion weithiau yn gallu bod yn gyffrous. Am ei fod yn byw yn lleol, ef oedd y gohebydd cyntaf i gyrraedd Tal-y-bont adeg y llifogydd, a'r cyntaf i dorri'r stori i'r BBC am ddiflaniad y ferch fach ym Machynlleth. Mae wedi cwrdd a chyfweld nifer o bobl adnabyddus, yn cynnwys gwleidyddion a sêr byd y campau, rhai ohonynt yn arwyr iddo, ond nid yw'r swydd yn fêl i gyd gan fod troeon trwstan yn medru digwydd weithiau! Talwyd y diolchiadau gan Enid Gruffudd, a Megan Mai ac Elizabeth Evans oedd yn ngofal y te.

### Brwydr y Fwydlen

8.25  
Bob nos Iau  
8 Tachwedd

Tri chogydd amatur.  
Tri phryd penigamp.  
Mae'r frwydr ar ddechrau.

s4c.co.uk



## Cadw cysylltiad â'r hen fro

Mae nifer o bobl sy'n enedigol o'r ardal sydd bellach yn byw ar hyd a lled Cymru a thu hwnt yn hoff o gadw cysylltiad â'r hen gynefin trwy dderbyn *Papur Pawb* drwy'r post bob mis. Caiff copïau eu hanfon i lefydd mor bell â Glasgow, Huddersfield a Phorthsmouth, yn ogystal ag i lefydd yng Nghymru fel Caerdydd, Hwlfordd a'r Trallwng. Un o ddarllenwyr ffyddlon y papur yw'r Parch John Watkin, Degannwy ger Llandudno. Anfonodd lythyr diddorol i ddiolch am rifyn mis Medi ac yn hwnnw mae'n dweud hyn:

"Er mai ychydig a adwaen o'r enwau a ymddengys yn rhifynnau'r blynyddoedd diwethaf, mae'n braf cael syniad o'r hyn sy'n digwydd yn yr ardal, ac adnabod ambell un wrth ei dylwyth. Plant ac wyrion Tyngraig ddaw i'r meddwl gyntaf, ond mae ambell un arall. Mae llwyddiant Sam Ebeneser yn rhoi boddhad nid bychan imi. Nid fy mod yn ei adnabod ef, ond rwy'n cofio'i dad-cu a'i fam-gu, a'i hen dad-cu a mam-gu."

Os bydd rhywun y carwn wybod pwy ydyw, caf air ag un o'r ychydig gyfoedion sy'n dal o gwmpas, ac, wrth gwrs, caf ateb yn ddi-ffael."

Os gwyddoch am unrhyw un a hoffai danysgrifio i'r papur yn fisol a derbyn copi trwy'r post, yna cysylltwch â Bledwyn Huws, Henllan, (01970 832 448).

**Mathew Davies**  
**Plymio a Gwresogi**



07964 124 457 ar gael 24 awr  
hefyd gwaith teilio  
Nwy • Olew • Tanwydd Solet • Solar

**Afiaith**  
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol  
Prydlon • Personol


Martin Davis  
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH  
Powys SY20 8JG Cymru  
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

**argraffu da  
am bris da**



**yLolfa** holwch Paul am bris ar [paul@yolf.com](mailto:paul@yolf.com)  
01970 832 304 [www.yolf.com](http://www.yolf.com)

**Parti Dathlu CD Newydd**  
**Wil Tân** - Llanw ar Draeth



**Gwestai:**  
**Clive Edwards**  
Nos Sadwrn • Rhafyr 1af,  
am 8.00  
Gwesty Llety Parc,  
Aberystwyth

**Tocynnau: £10**  
ar gael o'r gwesty  
**01970 636333**

## O'R CYNULLIAD

Yn ystod y mis rwy wedi codi'r buddsoddiad cyhoeddus i wella cyflymder band llydan yng Ngheredigion. Enillodd BT y cytundeb i ddarparu band llydan cyflym yn gynt eleni, a'r disgwyl yw y bydd pob tŷ a busnes yn derbyn cysylltiad band llydan cyflym erbyn diwedd 2015. Rwy hefyd wedi pwysleisio wrth y Prif Weinidog yn y Siambr taw'r llefydd sydd gyda chysylltiad gwan ar hyn o bryd a ddylai gael y flaenoriaeth wrth i BT gychwyn ar y gwaith o uwchraddio'r isadeiledd perthnasol.

Rwy hefyd wedi mynychu digwyddiadau amrywiol. Ar ddechrau'r mis, cefais y fraint o fod yn llywydd pencampwriaeth Aredig Cymru yn Fferm y Morfa, Llanon. Roedd yn hyfryd gweld cynifer o bobl wedi dod i gefnogi'r cystadlu, ac roeddem yn lwcus iawn fod y tywydd o'n plaid!

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi gorffen prosiect blwyddyn yn Llanerchaeron i godi pont newydd ar draws yr afon Aeron. Pwrpas y bont yw gwella mynediad ar gyfer pysgotwyr i'r afon, ac roeddwn yn falch o gael y gwahoddiad i ddathlu agoriad y bont newydd yn swyddogol.

Cefais wahoddiad gan y Cyng Peter Evans i gadeirio cyfarfod yn Llandysul i drafod y trafferthion parcio yn y pentref. Roedd yr aelod Cabinet dros drafnidiaeth, y Cyng Alun Williams, hefyd yn bresennol ac ar ôl trafodaeth fuddiol, cytunodd nad yw'r trefniant parcio presennol yn cwrdd ag anghenion y preswylwyr lleol. Bydd y Cyngor Sir yn awr yn cydweithio gyda thrigolion Llandysul i ailedrych ar y rhwystrau parcio ar hyd y brif stryd.

Yn olaf, fe wnaeth Fforwm 50+ Ystrad Fflur fy ngwahodd i gadeirio cyfarfod ym Mhontrhydfendigaid ychydig wythnosau yn ôl ynglŷn â'r cynllun Cylch Caron. Roedd hi'n dda gweld nifer o drigolion yr ardal yn bresennol i glywed mwy am y cynlluniau gan swyddogion o'r Bwrdd Iechyd.

Elin Jones AC

**loga**

Neuadd Goffa, Tal-y-bont,  
Nos Fawrth am 7.30 - 9.00.  
Pris £5.00  
Cysylltwch a  
**Sue Jones-Davies**  
**01970 624658**

**GAREJ PAUL JOSEPH**



Gwasanaeth & thrwsio  
pob math o geir  
01970 822220  
Danglo, Lôn Glanffred, Llandre

## Cymdeithas y Chwirydd

Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas y Chwirydd brynhawn Mawrth, 9 Hydref, yn festri capel Rehoboth, Taliesin. Croesawodd Myfanwy Rowlands ein gŵr gwadd, sef Dr Terry Edwards, Waunfawr, a chawsom brynhawn difyr yn gwrando arno yn hel atgofion am ei blentynod yn Aberystwyth. Roedd yn blentyn ysgol adeg yr Ail Ryfel Byd a mynychodd Ysgol *National* Heol y Gogledd ac Ysgol Ramadeg Ardwyn. Saesneg oedd iaith yr ysgol, a dysgodd yntau'r Gymraeg fel ail iaith. Er nad oedd sôn am y rhyfel yn yr ysgol, roedd yn ymwybodol fod rhyfel ymlaen am fod milwyr ac aelodau'r Llu Awyr i'w gweld ar hyd y dre. Hefyd, daeth *evacuees* i'r ysgol ond roeddent hwy yn cael eu dysgu ar wahân i'r plant eraill. Cadwai'r teulu lety ym Morfa Mawr, ac yn ystod y rhyfel roedd tuag ugain o bobl, yn cynnwys myfyrwyr, yn lletya yno. Roedd ei blentynod yn y dre yn hapus a heb bryderon yn ystod y rhyfel, gyda digon o ryddid i grwydro a mynd ar ei feic. Diolchwyd i Dr Edwards gan Ann Jenkins. Olwen Rowlands a Megan Brickley oedd yng ngofal y te.

# Effaith y tywydd gwlyb – holi Dr Hywel Griffiths

Dr Hywel Griffiths, darlithydd mewn Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth sy'n byw yn y Garth yn Nhal-y-bont, sy'n ateb cwestiynau'r Golygydd ynghylch natur y tywydd a'i effaith ar Gymru.



Llun gan Justin Manley

**Gol:** Eleni cawsom yr haf gwlypaf ers canrif. Does dim rhaid atgoffa pobl ardal Tal-y-bont ynghylch effaith y glawogydd trwm a gafwyd ym mis Mehefin. A ydym yn gwybod pam y cawn gymaint o law?

**HG:** Roedd dechrau'r haf eleni yn un o'r gwlypaf ers dechrau cadw cofnod yng Nghymru a Lloegr yn 1766. Un rheswm am hyn yw'r ffaith bod Osgiliad Gogledd yr Iwerydd (y *North Atlantic Oscillation* – y gwahaniaeth gwasgedd rhwng Gwlad yr Iâ a'r Azores) yn ei ffurf negyddol. Yn yr haf mae hyn yn golygu bod y jetlif yn cael ei wthio i'r de ac mae gwasgedd isel o'r Iwerydd yn cyrraedd yr ynysoedd hyn. Credir mai'r gwasgedd isel yma oedd y dyfnaf ers cyn 1900.

**Gol:** A oes a wnelo'r iâ yn y toddi yng Nghylch yr Arctig rywbeth â natur ein tywydd ni?

**HG:** Dyna gwestiwn anodd iawn i'w ateb! Mae'n debygol iawn bod yr iâ sy'n toddi yn yr Arctig yn effeithio ar y tywydd yng Nghymru, ond buasai'n anodd iawn darganfod yr union effaith oherwydd bod y system dywydd fyd-eang mor gymhleth.

**Gol:** A oes tystiolaeth yn y gorffennol fod tywydd gwlypach yn dilyn cyfnodau o dywydd sych, neu dywydd sychach yn dilyn cyfnod o dywydd gwlyb?

**HG:** Mae cylchrediadau tywydd yn sicr yn digwydd. Mae hyn yn gallu bod o ganlyniad i smotiau haul (*sunspots*) er enghraifft, sydd yn digwydd bob 11 mlynedd. Weithiau bydd Osgiliad Gogledd yr Iwerydd yn gadarnhaol, dro arall yn negyddol. Wedi dweud hynny, mae canfod unrhyw batrwm clir mewn glawiad, sychder neu lifogydd yn anodd tu hwnt, yn rhannol oherwydd bod cofnodion llif afon yn gyffredinol yn dechrau tua 1950. Mae'n anodd canfod patrymau hirdymor gyda chofnod mor fyr.

**Gol:** Beth fydd effaith tywydd gwlypach a mwy o law ar gymunedau fel Tal-y-bont a Thre'r-ddôl sydd ar lan afonydd?

**HG:** Mae'n bosibl y bydd angen i gymunedau baratoi ar gyfer llifogydd amlach ac felly bydd bygythiad amlach i dai ac eiddo, ac efallai i fywydau pobl. Gan gofio effeithiau'r llifogydd diweddar efallai y byddwn yn gweld difrod amlach i dai, eiddo, ffyrdd a phontydd ac ati a'r angen i gymunedau weithio gyda'i gilydd i ddelfio gydag effeithiau hyn. Mae'n bosibl y bydd cost yswiriant yn codi i rai hefyd o ganlyniad.

**Gol:** A fydd yn rhaid inni atal adeiladu tai o fewn hyn-a-hyn o bellter at afon?

**HG:** Nid o fewn hyn-a-hyn o bellter, efallai, ond yn yr ardaloedd y mae'r afon wedi llifogi o'r blaen neu yn debygol o wneud eto. Mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd fapiau o'r ardaloedd sydd mewn perygl o gael eu heffeithio gan lifogydd mawrion. Er nad yw'r mapiau yma yn gwbl gywir, maent yn ganllaw da ar gyfer pennu ardaloedd lle na ddylid adeiladu tai. Yn anffodus, anwybyddir hwy yn aml. Yn Aberystwyth, er enghraifft, mae swyddfeydd y Cyngor Sir, y Cynulliad, siopau mawr a 'stadau tai, wedi eu hadeiladu ar y gorlifdir sy'n llifogi unwaith bob can mlynedd. Ry'n ni'n gwybod o natur y gorlifdir bod llifogydd wedi digwydd yno yn y gorffennol, ac felly y gallai llifogydd tebyg ddigwydd eto. Bydd yn rhaid datblygu rheoliadau llymach a glynu atyn' nhw yn y dyfodol.

**Gol:** Pa effaith a fydd ar dirwedd Cymru yn sgil y llifogydd diweddar?

**HG:** Yn lleol, mae'r llifogydd diweddar wedi effeithio'n sylweddol ar dirlun yr ardal. Yn gyffredinol, gwelwyd gwaddodi sylweddol ar y gorlifdiroedd wrth i afonydd gludo cerrig a thywod o'r tir uchel. Gwaddodwyd tua 50 cm o raean a cherrig mawrion wrth ymyl yr afonydd yn y tir uchel a thua 40 cm o dywod ar y tir is. Yng Nghwm Leri cafwyd yr effeithiau mwyaf wrth i wely'r afon godi tua metr, ac wrth i'r afon symud ar hyd y gorlifdir ychydig. Yn Llawr-y-cwm-bach, gwelwyd sawl tirlithriad sylweddol ar lethrau serth a nifer o gyliau yn ffurfio ar draciau fferm.

**Gol:** Pa effaith a gaiff yr holl law ar natur ac ansawdd y pridd?

**HG:** Oherwydd yr holl fwyngloddio metelau trwm (e.e. plwm, zinc a chopr) sydd wedi digwydd ym mynyddoedd yr Elenydd dros y canrifoedd, mae lefelau uchel iawn o'r metelau yma yng ngwaddodion y gorlifdiroedd. Pan fo'r afonydd yn erydu'u glannau felly, maent yn codi'r gwaddodion a'r llygredd unwaith eto, ac yn eu gwasgaru ar hyd wyneb y gorlifdiroedd. Gwelwyd lefelau uchel o blwm a chopr yn afonydd Stewi a Seilo yn nyffryn Clarach ac yn ardal Cwmystwyth. Hefyd roedd lefelau uchel o Gadmiwm ar draws dyffrynnoedd gogledd Ceredigion. Yn gyffredinol roedd lefelau tipyn yn is yn nyffryn Leri o gymharu gyda'r dyffrynnoedd eraill.

**Gol:** Sut allwn ni baratoi'n well ar gyfer glawogydd trwm a llifogydd yn y dyfodol?

**HG:** Dwi'n meddwl bod angen inni baratoi yn feddylol ar gyfer tywydd mwy eithafol. Cafodd pawb gryn sioc eleni wrth weld maint ac effaith y llifogydd ond os allwn ni gofio eu bod yn gallu digwydd yn rheolaidd, gallwn baratoi ar gyfer delio a'u heffeithiau. Gan gofio ymateb mor wych a gafwyd yn Nhal-y-bont yn dilyn y llifogydd annisgwyl yma, dylem fedru cynllunio ymateb gwell fyth os ydym wedi paratoi yn well. Y rheswm dros y llifogydd diweddar oedd y glaw trwm ac fel unigolion 'does gennym ni ddim pŵer i newid hynny ond mi allwn sicrhau bod cynlluniau gennym ar gyfer diogelu pobl, tai ac eiddo gan gynnwys ehangu system rybuddio Asiantaeth yr Amgylchedd.

Mae cydweithwyr i Hywel wedi paratoi adroddiad manwl (y soniwyd amdano ar raglen *Week in Week Out* yn ddiweddar) ar achosion ac effeithiau'r llifogydd diweddar. Os hoffech dderbyn copi, cysylltwch â Hywel ([hmg@aber.ac.uk](mailto:hmg@aber.ac.uk) <<mailto:hmg@aber.ac.uk>>).



## Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd nos Lun 29 Hydref.

### Balchder Pentrefi

Derbyniwyd manylion a chostau'r ddau opsiwn ar gyfer y cais am gymhorthdal o dan y Project Balchder Pentrefi am welliannau i gyfleusterau a golwg y pentref. Yn dilyn trafodaeth fywiog ar ragoriaethau'r ddau opsiwn parthed natur y meinciau i'w gosod ar y Patshyn Glas, pleidleisiodd y cynghorwyr i gefnogi *Opsiwn B*, sef meinciau o ddeunydd wedi'i ailgylchu, yn hytrach na rhai o bren caled. Cyflwynir y cais i Banel Balchder Pentrefi yn eu cyfarfod nesaf ar 21 Tachwedd a gobeithir cychwyn ar y gwaith yn fuan wedi gwyliau'r Nadolig os bydd y cais yn llwyddiannus. Adroddodd y Clerc iddo gwrdd â Steffan Jones, Swyddog Rheoli Cyfeiriadau Cyngor Sir Ceredigion, i gael rhagor o wybodaeth am y camau angenrheidiol cyn codi arwyddion strydoedd. Oherwydd cymhlethdod y broses ni fydd modd symud ymlaen am rai misoedd eto i gwblhau'r gwaith papur angenrheidiol. Yn y cyfamser fe drefnir i'r Is-bwyllgor Enwau Strydoedd fathu fersiwn Cymraeg priodol ar yr enwau uniaith Saesneg cyn symud ymlaen i ymgynghori â thrigolion y tai perthnasol.

### Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-22

Cyflwynodd y Clerc adroddiad byr o Wrandawriad yr Archwiliad ar bentref Tal-y-bont a fynychodd ar ran y Cyngor. Er bod y cyfan wedi'i arwain yn gwrtais a theg gan yr Arolygydd, yr unig fater roedd yn awyddus i'w drafod oedd dewis y Cyngor Sir o'r dyraniadau tir yn y pentref i'w datblygu yn hytrach na phrif bryder y Cyngor, sef y nifer uchel o dai newydd arfaethedig fyddai'n fygythiad i iaith, diwylliant a chymuned glös y pentref. Bydd raid aros am gryn amser cyn y cyhoeddir adroddiad yr Archwilydd.

### Sesiynau Chwarae Agored

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Swyddog Cyswllt Cymuned Cyngor Sir Ceredigion yn gofyn a gâi hi ddod i gyfarfod nesaf y Cyngor i'w chyflwyno'i hun ac i drafod y ffordd ymlaen i barhau'r sesiynau chwarae agored yn Nhal-y-bont o 2013 ymlaen. Cytunwyd i'w gwahodd i'r cyfarfod nesaf.

### Cynllun Grantiau Cymunedol

Derbyniwyd llythyr oddi wrth y Cyngor Sir yn gofyn i'r Cyngor Cymuned dynnu sylw unrhyw grwpiau Cymunedol a Chymdeithasau Chwaraeon Gwirfoddol o fewn y gymuned at y Cynllun Grantiau Cymunedol a gynigir gan y Cyngor Sir. Adroddwyd fod rhai clybiau a chymdeithasau lleol eisoes wedi manteisio ar y Cynllun. Os oes unrhyw un â diddordeb, gellir derbyn copi gan y Clerc neu o wefan Cyngor Sir Ceredigion.

### Cau Ffordd

Derbyniodd y Cyngor rybudd y bydd y ffordd o Penlon hyd at Tancoed heibio'r Cae Bach ar gau rhwng 9 y bore ar 12 Tachwedd ac 1 o'r gloch 16 Tachwedd i alluogi adeiladu siambr

carthffosiaeth ar gyfer y byngalo newydd sydd i'w godi ym Maes-y-deri.

### Y Fynwent

Mae'r problemau ynghylch rhan newydd y fynwent bellach wedi cilio a phob rhwystr i'r gwaith cynnal a chadw wedi'i ddatrys. Ni fydd angen gweithredu ymhellach ar y mater am y tro. Diolchwyd i'r teuluoedd am eu cydweithrediad.

### Cae Bach

Adroddodd y Clerc ei fod bellach wedi derbyn amcan-bris ar gyfer gwaith cynnal a chadw yn y Cae Bach ac am godi giât newydd pwrpasol yn y fynedfa o Faes-y-deri er mwyn gwella diogelwch. Roedd y gost cyfan oddeutu £1,800. Cytunwyd i dderbyn yr amcan-bris.

### Goleuadau Nadolig

Cytunwyd i gynnal seremoni goleuo'r Goeden Nadolig fel yn y blynedd diwethaf, ac i brynu goleuadau newydd i'w gosod o flaen y Neuadd Goffa.

**Y Fframdy**  
Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.  
Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau.  
Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.  
Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA  
Ffôn: 01970 871042  
Symudol: 07773 846659

**James Memorials**  
Am  
GOFEBAU ARBENNIG  
BEDDARGRAFFIADAU  
ADNEWYDDU O SAFON  
ARWYDDION AR DAI A  
BUSNESAU  
Gofynnwch am bamffled  
rhad ac am ddim  
James Memorials  
Vicarage Crossing,  
Llandre, Bow Street  
Ffôn: (01970) 820 111

**MID WALES STORAGE**  
**Storfa Canolbarth Cymru**  
STORFA DODREFN STORFA FUSNES ARCHIFAU  
STORFA I FYFYRWYR PACEDU  
DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR • CCTV  
WEDI GYNHESU • CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS  
www.midwalesstorage.co.uk  
Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ  
Ffôn: 01654 703592

**GAREJ DAVMOR**  
M.O.T., Gwasanaeth,  
Batris a Theiars  
Gellir llogi car, fan neu fws mini i'w gyrru eich hun  
www.davmorgarage.co.uk  
Ffôn: 01970 832278

**CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS**  
M.O.T. CENTRE  
Glanyrafon

**Teiars Aliniad Olwyn Ecsôsts Batris Brêcs Hongiad Bar tynnu Gwasanaeth MOT**

**TEIARS HUW LEWIS TYRES**  
Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.  
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan  
**ALIGNMYCAR.CO.UK**  
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.  
**HUWLEWISTYRES.COM Ffôn: 01970 636774**

## Yr allwedd yw economi llewyrchus



Mae angen Cymru fwy llewyrchus ac mae angen newid agweddau pobl Cymru tuag at fusnes, dyna neges Dr Eurfyl ap Gwilym, economegydd cyllidol, dyn busnes a chyn-gadeirydd Cymdeithas Adeiladu'r Principality mewn cyfarfod o ganghennau lleol Plaid Cymru yn Rhydypennau ganol mis Hydref. Roedd sawl un o Dal-y-bont yn gwrandao ar ei ddadansoddiad o gyflwr economaidd Cymru, ac yr oedd ganddo farn bendant iawn ar sut i wella'r economi, sef trwy roi mwy o gefnogaeth i fusnesau preifat.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn gwario £30 biliwn ar wasanaethau cyhoeddus, ond dim ond £20 biliwn a godir yng Nghymru trwy drethiant. Yr unig ffordd i lenwi'r bwlch o £10 biliwn ym marn Dr ap Gwilym yw trwy gryfhau'r sector preifat a buddsoddi mwy mewn busnesau lleol ledled y wlad, gan fod modd i'r busnesau hyn greu rhagor o swyddi. Os caiff pobl well cyflogau ac os gwna'r cwmnïau preifat fwy o elw bydd mwy o arian yn cael ei godi mewn trethi a bydd hyn yn ei dro yn cryfhau'r economi. Byddai'n hoffi gweld Llywodraeth Cymru yn gwneud llawer mwy i hyrwyddo'r sector preifat: "Os ydym am weld Cymru ffyniannus rhaid inni gael economi llewyrchus", meddai.

Gofidiai hefyd am fod canran uchel iawn o bobl ifanc Cymru yn gadael y Colegau heb waith. Roedd am weld mwy o bwyslais ar ddatblygu sgiliau pobl ifanc mewn crefftau o bob math yn hytrach na cheisio anfon pawb ohonynt i'r prifysgolion. Cyfeiriodd yn benodol at yr hyn sy'n digwydd yn yr Almaen, sef fod llawer o bwyslais yno ar ddatblygu sgiliau crefft ymhlith pobl ifanc. Roedd rhai o'r bobl ifanc hynny wedyn yn mynd ati i sefydlu eu busnesau eu hunain ac yn cyfrannu i'r economi.

Mae Dr ap Gwilym hefyd yn aelod o Gomisiwn Silk a benodwyd gan Lywodraeth Llundain i ystyried a ddylid trosglwyddo pwerau cyllidol a threthiannol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi ei adroddiad y mis hwn.

## Ysgol Tal-y-bont

### Hyfforddiant pêl-droed merched

Ar ddydd Mercher y 10fed o Hydref, daeth cwmni Hyfforddi Pêl-droed i ferched allan i'r ysgol i gynnal sesiwn hwylus i ni ferched ym mlwyddyn 2, 3, 4, 5 a 6. Cawsom gyfle i chwarae gemau a dysgu driliau newydd, megis taclo rhwydd a'r gêm 'Cyw Iâr'. Mwynhaodd pawb yn fawr iawn. Gobeithiwn fanteisio ar gyfle tebyg yn y dyfodol i ferched Ysgol Tal-y-bont.

Gan Louisa Williams a Hana Evans, Blwyddyn 6.

### Diwrnod T. Llew Jones

I ddathlu Diwrnod T. Llew Jones ar 11eg Hydref eleni fe wisgodd y disgyblion a'r staff ddillad coch, gwyn a gwyrd ac roedd pob dosbarth wedi paratoi cacennau a bisgedi blasus. Gwahoddwyd aelodau o'r gymuned i'r ysgol i ddarlllen straeon yr awdur poblogaidd ar ddiwrnod ei ben-blwydd. Cafodd y disgyblion fwynhad mawr o wrando ar ddetholiad o'i straeon anturus ac rydym yn ddiolchgar iawn i'r gwirfoddolwyr am eu hamser a'u brwdfrydedd. Ein gobaith yw y gallwn gynnal diwrnod tebyg yn y dyfodol.



Gwasanaeth Cynhaef Yr Ysgol

### Canlyniadau hoci hyd yma

05/10/12 – Ysgol Rhydypennau 0 Ysgol Tal-y-bont 3.  
12/10/12 – Ysgol Gymraeg A2 1 Ysgol Tal-y-bont 3  
26/10/12 – Ysgol Gymraeg A1 8 Ysgol Tal-y-bont 1

## > Rhagor o Pobl a Phethe

### Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Mr Jim Owen, Hengoed, Bont-goch sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Mae'n dda gweld Mr Gareth Evans, Sŵn-

y-ffrwd wedi dychwelyd adref ar ôl cyfnod o salwch.

### Seren Bop Bont-goch

Bu Meleri Mair, Tŷ Capel, Bont-goch ar raglen Radio Cymru Iola Wyn yn ddiweddar yn sôn am ei chyfnod fel seren bop gyda grŵp y Diliau yn y 1970au.

### K Hughes

### Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi  
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129  
07761 917235

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlir â Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch ar golli cyfnith, Dr Ann Evans, yng Nghrughywel, Powys yn ddiweddar.



## Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc?
- Eisiau hysbysebu gweithgareddau plant a phobl ifanc?

Cysylltwch â ni am fanylion pellach

Ffôn/Phone: 01545 574187 E-bost: [cis@ceredigion.gov.uk](mailto:cis@ceredigion.gov.uk)  
Gwefan: <http://cis.ceredigion.gov.uk>  
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron,  
Ceredigion, SA46 0PA

## GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI  
GWASANAETH GOLCHI  
DWFES MAWR  
CITS CHWARAEON

GERAINT JAMES  
Ffôn: 01970 612459  
Mob: 07967235687  
Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,  
Aberystwyth SY23 3SL





## Ysgol Llangynfelyn



### Hyfforddiant Pêl-droed Merched

Daeth dau aelod o Glwb Pêl-droed Aberystwyth i'r ysgol i gymryd sesiwn hyfforddiant pêl-droed gyda'r merched i gyd. Mwynhaodd y merched yn fawr iawn ddysgu sgiliau newydd a chwarae gemau bychan.



### Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd

Fel rhan o ymgyrch yr Urdd i godi arian tuag at weithgareddau'r Urdd yng Ngheredigion, cynhaliwyd Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd yn yr ysgol. Gwisgodd y plant a'r staff eu dillad coch, gwyn a gwyrdd a chyfrannodd bawb tuag at gacen a diod. Yn y prynhawn, cynhaliwyd Helfa Drysor Mistar Urdd.



### Gwasanaeth Diolchgarwch

Braf iawn oedd teithio draw i Eglwys y Borth i'n Gwasanaeth Diolchgarwch ar yr 16eg o fis Hydref. Roedd yr Eglwys yn orlawn gyda rhieni, ffrindiau a chymdogion o Ysgol Llangynfelyn, Ysgol Tal-y-bont ac Ysgol Craig yr Wylfa. Cymerodd bawb rhan mewn canu, llefaru a chwarae offerynnau. Diolchwn i Eleri Barder am siarad â'r plant am ei phrofiadau hi o ddweud diolch. Gwnaethpwyd casgliad tuag at 'Water Aid'. Diolchwn hefyd i Mr Peter Leggett a staff Ysgol Craig yr Wylfa am y gwahoddiad a'r croeso cynnes.

### Sioe Arad Goch

Aeth Dosbarth y Cyfnod Sylfaen i Ysgol Tal-y-bont i weld Sioe ddiweddaraf Arad Goch sef 'Cwmp y Dail'. Mwynhaodd pawb y sioe yn fawr iawn.

### Diogelwch Tân Gwyllt

Daeth PC Hefin Jones a Karen o'r Gwasanaeth Tân i'r ysgol i siarad gyda'r plant am bwysigrwydd cadw'n ddiogel yn ystod y gwyliau ac yn enwedig gyda tân gwyllt. Gwrandawodd y plant yn astud iawn ar eu sgysiau. Daeth PC Simon Griffiths i'r ysgol hefyd i siarad gyda'r plant am sut i gadw'n ddiogel wrth chwarae tu allan.

### Sioe Nadolig

Bydd ein Sioe Nadolig yn cael ei chynnal yn Neuadd Llanfach ar nos Fawrth Rhagfyr 18fed am 6.30yh. Mae croeso cynnes i bawb!

## Perfformiad o'r Canpunt



Llun gan Laurie Wright

Bu cwmni drama'r Morlan, Aberystwyth, yn llwyfannu dau berfformiad o ddrama a ysgrifennwyd gan y llenor Kate Roberts yn ystod mis Hydref, a'r cyfarwyddwr oedd Geraint Evans, Garnwen, Tal-y-bont. Comedi un act yw hi sy'n rhoi cyfle i wneud hwyl am ben gwerthoedd Seisnig y dosbarth canol Cymreig mewn cwm diwydiannol ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Mae Mrs Davies (a chwaraewyd gan Elin Haf Gruffudd Jones), sy'n fodryb Mary Jane i w'r o'r enw Jim Davies (a chwaraewyd gan Morys Gruffydd), yn hoff o siarad Saesneg gan mai honno yw iaith dod ymlaen yn y byd, ac mae'n gobeithio y bydd ei merch, Adelina (a chwaraewyd gan Gwenan Creunant), yn priodi Sam Price (a chwaraewyd gan Deian Creunant), perchennog pwll glo Cors y Bryniau. Gobaith Jim Davies yw y bydd ei fodryb yn rhoi canpunt iddo fel y gall briodi ei gariad, Mari Myfanwy (a chwaraewyd gan Dana Edwards). Ond dyw Anti Mary ddim yn credu fod Mari Myfanwy, sy'n ferch i was ffarm o Gwm Gors, yn ddigon da i Jim am nad yw'n medru llawer o Saesneg, ac felly nid yw'n cwrdd â safonau crachaidd a snobyddlyd y dosbarth canol.

Ond gan fod Sam Price yn gymaint o ferchetwr, mae'n rhoi tipyn o sylw i Mari Myfanwy yng ngwydd pawb ym mharlwr Anti Mary, ac mae Anti Mary am iddo wneud mwy o sylw o Adelina ei merch. Er mwyn rhwystro Sam Price rhag rhoi gormod o sylw i Mari Myfanwy, mae Anti Mary yn rhoi'r canpunt i Jim fel y medr adael y tŷ a phriodi ei ddarpar wraig. Mae'n edrych yn debyg fod yr hen Mari Myfanwy yn fwy cyfrwys nag yr oedd neb wedi ei feddwl, oherwydd llwyddodd i hawlio sylw Sam Price am gyfnod a bygwth drysu cynlluniau Anti Mary ar gyfer Adelina ei merch, nes gorfodi Anti Mary i drosglwyddo'r canpunt yn llawer cynt nag yr oedd wedi'i fwriadu.

Cafwyd perfformiad graenus iawn gan y cwmni, ac yr oedd yn amlwg fod cryn ofal wedi ei roi i lunio'r set a chael gwisgoedd addas. Cyfrannodd Rwth Jên bantiad ar gyfer y set, a Medi James oedd yng ngofal y gwisgoedd.

Mae'n debyg i'r cwmni dderbyn sawl gwahoddiad yn barod i berfformio'r ddrama mewn lleoedd eraill, ac os bydd yn cwmni'n penderfynu mynd ar daith, byddai'n dda eu gweld yn dod i Dal-y-bont.

# EVAN ISAAC

**Wedi imi sôn am fechgyn Soar, Tre'r-ddôl, aeth i weinidogaeth y Wesleaid, yn rhifyn Ebrill, dyma droi at hanes un o'r rhai mwyaf adnabyddus yn eu plith.**

Gwelir yr enw Isaac ymhlith arweinyddion yr eglwys dros y cenedlaethau. Evan oedd trydydd plentyn Abraham ac Elizabeth Isaac, a aned ar draws y ffordd i gapel Rehoboth yn Nhaliesin, ym 1865. Ar ôl gadael ysgol yn 10 oed bu'n gweithio fel nifer o'i berthnasau yng ngweithfeydd mwyn plwm yr ardal, a'i ddisgrifio yng nghyfrifiad 1881, fel 'copper miner'. Ymadawodd fel nifer fawr o'i gyfoedion ym mhlwyfi Llangynfelyn ac Ysgubor-y-coed, i'r De i weithio fel glowr yn Aberpennar ac yno y dechreuodd bregethu. Wedi symud i Fedlinog bu'n gyfrifol am agor capel yno, capel lle bu David ei frawd yn flaenor ac arweinydd.

Ar derfyn ei hyfforddiant yng Ngholeg Handsworth, Birmingham ym 1891, gweinidogaethodd ym Mryn Mawr, Treorci, Tyddewi, Aberystwyth a Ferndale. Bu am dri chyfnod ym Merthyr, Machynlleth a Llanidloes. Ymddeolodd ym 1932 a bu farw yn ddibriad yn ei hen gartref yn Nhaliesin ar 16 Rhagfyr 1938. Hebyrngwyd ef fel ei hynafiaid i fynwent Eglwys Llangynfelyn ac ar y gof golofn amlwg yno naddwyd englyn gan ei gyfaill mawr, y bardd, y llenor a'r ysgolhaig, T.Gwynn Jones:

Hen gyfaill, cawn ei gofio, – od yw'n fud  
Yn ei fedd yn huno,  
Ei gyngor, nis dwg ango',  
Na'i wên na'i lais annwyl o.

Wedi iddo fod yn Ysgrifennydd y Gymanfa Wesleaid yng Nghymru fe'i dyrchafwyd yn Llywydd ym 1917 ac anerchodd o'r gadair yn Aber-dyfi ar 'Yr Eglwys a'i Hamseroedd'. Fel Llywydd, cynrychiolodd Gymru yn y Gymanfa Fethodistaidd Ewmenaid, yn Nhoronto.

Arhoswn gyda'r Wesleaid a chyfeirio at gyfrol werthfawr Evan Isaac, *Humphrey Jones a Diwygiad 1859*, Gwasg y Bala 1930, lle manylir ar hanes mab Gwarcwm-Bach yn America a Chymru. Ond cyn dod at yr hanes mae ganddo bennod ddiddorol ar 'Tre'r-ddôl a'r Gymdogaeth'. 'Pentref bach diymffrost yng ngogledd Ceredigion, a eistedd yn dawel mewn dól deg ar odre un o'r mynyddoedd sy'n ffurfio cadwyn Pumlumon ydyw Tre'r-ddôl. Cuddia'r ynys sydd ar Gors Fochno Fae Ceredigion rhagddo, eithr pan fo'r Bae yn ferw gan ystwm fawr daw swm ei gynnwrf hyd ato ar brydiau'. Wedi sôn am Fedd Taliesin, dywed, 'Nid oes un math ar reswm tros gredu i ysbryd yr hen fardd fendithio dim ar y pentref, aeth ei fendithion i gyd i bentref Talybont, lle maged Ceulanydd a Mochno a Hawen (gweinidogion a beirdd /prifeirdd) a Richard Morgan, Llanarmon-yn-Iâl, ac o'r un man y cafodd J.J. Williams yntau eneniad awdl y 'Y Lloer'.

'Lladdodd peiriannau'r trefydd mawr fasnach hetiau lwyddiannus y pentre a'r unig fasnach arall a fu o fudd i'r ardal ac a'i siriolodd o dro i'w gilydd ydoedd masnach y mwyn plwm. Y mae'r mynyddoedd o'i ôl, a hyd yn oed y Gors o'i flaen, wedi eu britho â phyllau y mwyn plwm. Bu gweithio mawr ar adegau yng ngweithfeydd Bryn yr Arian, Pen Sarn, Y Romans, Y Llain Hir, Neuadd yr Ynys a Phenrhyn Gerwin. Telid eu cyflogau i'r gweithwyr ar y pedwerydd dydd Sadwrn o bob mis, a diwrnod pwysig oedd hwnnw; deffroai'r pentref i fywiogrwydd mawr wrth swm ymyfwyr yr 'Half Way Inn' a'r 'Commercial' – y 'Wildfowler' heddiw, a chyfrannai'r 'Royal Oak' a'r Frân (carwn wybod ble'r oedd) hwythau, yn Nhaliesin gryn lawer at firi'r 'Dydd Sadwrn Pen Mis'. Gan imi ysgrifennu am Humphrey Jones mewn rhifynnau cynharach nid wyf am fanylu dim ond eich annog i ddarllen y gyfrol.

Cyfrannodd Evan Isaac erthyglau'n gyson i fisolyn y Wesleaid, *Yr Eurgrawn*, ac ar ôl iddo gyflwyno cyfres ar Emynwyr Cymru, cyhoeddodd Gwasg y Brython, Lerpwl, ei gyfrol gynhwysfawr, *Prif Emynwyr Cymru*, ym 1925. Dywed yn y rhagair: 'Canwyd amryw



emynau didramgwydd, ac ambell un gwir dda, onid anfarwol, gan nifer lluosog iawn, megis Hugh Jones, Maesglasau; Evan Jenkins, Llansamlet; Ioan Dafydd, Caio; Josiah Jones, Brynmair; W. Williams, Llanbryn-mair; Thomas Lewis, Tallyllychau; Jane Hughes, Mary Owen, Alun, Islwyn, Emrys, Roger Edwards, Gwilym Marles, ac eraill. Eithr prin yr hawlia neb ohonynt eu rhestru ymhlith *prif* emynwyr Cymru. Petai galw, nid anodd fyddai rhoddi llyfr ar emynwyr yr ail ddosbarth'.

Ai yn yr ail ddosbarth y dylid gosod, 'O tyn y gorchudd yn y mynydd hwn' (Hugh Jones); 'Newyddion braf a ddaeth i'n bro' (John Dafydd); 'Wrth gofio'i riddfannau'n yr ardd' (Thomas Lewis); 'Dyma gariad, plwy a'i traetha?' (Mary Owen); 'Arglwydd, gad im dawel orffwys' (Emrys); a 'Pa le, pa fodd dechreuaf /foliannu'r Iesu Mawr' (Roger Edwards). Wrth draethu ar 'Yr Emy'n' cyn trafod yr emynwyr, dywedir: 'Mewn emynyddiaeth y diogelir hynny o undeb gwir sydd rhwng enwadau Cymru a'i gilydd. Yn y Llyfr Emynau ceir pob enwad, a phawb yn un o ran ysbryd a phrofiad'. Carwn feddwl fod hynny'n wir.

Dwy gyfrol wahanol a hynod ddifyr gan Evan Isaac yw *Yr Hen Gyfnol* a *Coelion Cymru*, a rhof sylw iddynt y tro nesaf.

W.J.E.

## Dyfodol: Llais i'r iaith

Diolch i ymgyrchu a phleidlais a chefnogaeth ariannol Cymry Cymraeg yn bennaf, mae gan Gymru Senedd, Deddf Iaith, S4C a Choleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae llawer wedi'i wneud mewn 50 mlynedd. Ond mae llawer mwy angen ei wneud dros y Gymraeg, a llawer mwy y gallen ni ei wneud gyda'n gilydd.

Mae Senedd yng Nghymru heddiw yn rhoi cyfle i ni wneud yn siâr fod ein hiaith ni yn ganolog i bopeth sy'n cael ei basio o ran deddf a rheolau eraill ym mhob rhan o'n bywydau. Cynllunio ac adeiladu tai, gwasanaeth iechyd, ysgolion a cholegau, amgylchedd cynaliadwy, gofal a lles pobl o bob oed... mae'r rhain i gyd yn feysydd sy'n gwneud gwahaniaeth i'r Gymraeg. Dyma lle mae'r iaith yn mynd i fyw... neu farw.

Y trueni mawr yw bod cyfle yn cael ei golli bob dydd i gryfhau'r Gymraeg ym mhob maes gan nad oes yna neb yn gweithio i lobio dros yr iaith yn ein Senedd ym Mae Caerdydd. Mae gan bob mudiad arall dan haul sawl person yn lobio drostyn nhw, ond does neb yn gwneud hynny dros y Gymraeg.

Dyma'r ffordd i ennill brwydrau a gwneud gwahaniaeth, bellach. Roedd ymgyrchu a phrotestio yn gweithio **cyn** i ni gael Senedd. Mi ddylai fod yn bosibl cyflawni llawer rhagor erbyn hyn. Ond dydyn ni ddim yn defnyddio'r cyfle sydd ar gael.

Pwrpas sefydlu **Dyfodol i'r Iaith** yw newid hynny, a sicrhau bod pobl yn gweithio dros y Gymraeg yn y man mwyaf effeithiol posib – yng nghanol y gwleidyddion a'r gweision sifil yng Nghaerdydd. Mae angen cyflogi pedwar person proffesiynol i lobio dros y Gymraeg ar draws ystod eang o feysydd.

Er mwyn gallu talu cyflog y pedwar, mae angen swm mawr o arian. £200,000 bob blwyddyn. Swm anferth o edrych arno, ond swm y gallwn ni ei gasglu pe bai pawb yn helpu'n ymarferol i sicrhau dyfodol i'n hiaith. Mae miloedd o bunnoedd y flwyddyn wedi'u haddo'n barod gan aelodau **Dyfodol i'r Iaith**. Mae Dyfodol yn agored i unrhyw un sy'n caru'r iaith Gymraeg ac nid yw ynghlwm wrth unrhyw blaid wleidyddol nac yn derbyn unrhyw nawdd cyhoeddus.

£10 y mis yn unig yw tâl aelodaeth **Dyfodol**. A yw £10 y mis yn ormod i'w dalu er mwyn gwneud y Gymraeg yn iaith fyw ym mhob maes? A ydych chi am estyn llaw? Ydych chi am fod yn rhan o'r cyfle gorau erioed i warchod a datblygu'r Gymraeg?

Mae rhai wedi protestio, mae rhai wedi bod mewn carchar, mae rhai wedi rhoi llawer mwy na £10 y mis dros y blwyddoedd. Mae hwn yn gyfle arall i bob un ohonom ni. Nid mynd i lys barn, nid mynd i garchar, ond mynd i'n pocedi.

Cefnogwch y Gymraeg – er mwyn ei dyfodol. Ymunwch â **Dyfodol**. Rhowch **Lais i'r Iaith**.


Ewch i'r wefan: [www.dyfodol.net](http://www.dyfodol.net) i gael ffurflen ymaelodi. Mae croeso i gyfraniadau ariannol, yn ogystal.

Yn ddiffuant

**Bethan Jones Parry, Llywydd; Heini Gruffudd, Cadeirydd; Angharad Mair, Is-Gadeirydd; Richard Wyn Jones, aelod o'r Bwrdd, Cynog Dafis, Aelod Craidd.**



## ADOLYGIAD



*Ar Lan y Môr* yw teitl llyfr diweddaraf Gwyn Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont – chwaer-gyfrol i *Byw yn y wlad*. Cyfrol yw hon o tua 140 o ffotograffau o arfordir Cymru a dynnwyd rhwng 1850 a 2012, a seilir y llyfr yn bennaf ar gasgliad helaeth y Llyfrgell Genedlaethol. Gan i'r awdur ddewis trefn gronolegol i'r gwaith, a mynd ati'n fwriadol i ddewis ffotograffau o bobl a'u gweithgareddau yn hytrach na rhai o olygfeydd, mae'r gyfrol yn gofnod gwerthfawr o fywyd cymdeithasol ac economaidd arfordir Cymru dros y 150 mlynedd diwethaf. Ond nid cyfrol addysgiadol yn unig mohoni – mae digonedd o luniau ysgafnach eu naws i'n gogleisio hefyd.

I lawer iawn a fagwyd yng nghefn gwlad, neu mewn tref ddiwydiannol, bydd y llun trawiadol ar glawr y gyfrol o blant yn chwarae'n hapus ar draeth y Mwnt yn dwyn atgofion melyn o'u plentynod eu hunain pan fyddai trip Ysgol Sul i'r Rhyl, Llandudno, Dinbych-y-pysgod, Porthcawl neu'r Barri ymhlith uchafbwyntiau'r flwyddyn. Ond i'r rhai a fagwyd ar lan y môr, roedd yn bennaf yn fan i ennill bywoliaeth. Portreadir yr agwedd bwysig hon yma trwy gyfres o ffotograffau diddorol o bysgotwyr, casglwyr cocos, adeiladwyr llongau, docwyr a gwerthwyr pysgod wrth eu gwaith bob dydd. Cawn ein hatgoffa hefyd o beryglon y môr drwy'r lluniau o fadau achub a'u criwiau, ac un ffotograff dramatig o sgwner wedi'i chwalu ar greigiau ger Ceinewydd.

Yr her wrth lunio cyfrol fel hon yw cynnwys detholiad cytbws o ffotograffau o safon i bortreadu gwahanol gyfnodau, tra ar yr un pryd gynrychioli gwahanol ardaloedd a'r amrywiaeth eang o weithgareddau glan y môr. Camp yr awdur yw ei fod wedi llwyddo i wneud cyfiawnder llwyr â'r testun er gwaetha'r ffaith ei fod wedi'i gyfyngu i'r casgliadau o ffotograffau sydd wedi goroesi. Bydd nifer dda o'r lluniau o ddiddordeb arbennig i ddarlennwyr *Papur Pawb*, megis yr un a dynnwyd gan John Thomas yn yr 1880au o un o'r tair fferi a hwyliai o Ynys-las i Aberdyfi, a'r ffotograff o Mrs Thomas, Rheidol Terrace, Aberystwyth yn gwerthu mecryll o'i chert ar y prom yn y 1920au.

Mae'r ffotograffau trawiadol a'r wybodaeth ddiddorol amdanynt yn gwneud y gyfrol yn anrheg Nadolig neu ben-blwydd ddelfrydol. Diolch i Gwyn am gipolwg ar fywyd glan y môr Cymru ddoe a heddiw, a llongyfarchiadau hefyd i Richard Ceri Jones am ei ddylunio graenus.

GH

**Rhian**  
trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad  
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612  
07835 525 553

**Gwasanaeth Scanio  
ARTHUR MORGAN**

Pencefn, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion  
01239 615085 – 07721 786292

**Iwan Jones**

**Gwasanaethau Pensaernïol**

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,  
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,  
Ceredigion SY24 5HJ

**helen.iwan@btinternet.com**

**01970 832760**

Bistro  
**Gannets**



**Bwyd a Gwin Da**

7 St James Square, Aberystwyth

**617164**

Ar agor Llun i Sadwrn  
12-2 a 6-9.30

## Gofal Traed Aber

**Ceiropodydd • Podiatrydd Cofystredig gan yr H.P.C.**

- Triniaethau ar ewinedd a chyrn
- Llawdriniaeth ar gasewinedd
- Triniaeth/asesiad arbenigol ar draed diabetig
- Gwadnau ac asesiad biomechanyddol

**Triniaeth yn y cartref ar gael**

Galwch Shân Jones neu Richard Ellison **01970 617269**

4, Y Porth Bach, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AR



## Y Gair Olaf



Mae Nadolig ar y gorwel, a daeth hi'n amser unwaith eto i feddwl am drefnu cardiau ac anrhegion. Ac wrth sôn yn arbennig am gardiau, rwy'n hoffi meddwl bod gennyf un neu ddau o egwyddorion pwysig rwy'n ceisio fy ngorau i lynu atynt. Yn bwysicach na dim, rwy'n ceisio sicrhau fod y neges a'r llun yn adlewyrchu gwir ystyr yr Ŵyl. Hefyd, rwy'n ceisio gwneud yn siŵr fy mod yn gyrru cerdyn Cymraeg, neu ddwyieithog o leiaf, i bawb sydd ar fy rhestr. Yn fy mhrofiad i, mae ffrindiau sydd ddim yn deall yr iaith wrth eu bodd yn derbyn cerdyn Cymraeg, ac rwyf innau, yn yr un modd, yn falch i dderbyn eu cardiau hwythau mewn ieithoedd fel Norwyeg neu Ffrangeg. Wrth dynnu'r cardiau lawr ar ddechrau'r flwyddyn newydd, mae'n arferiad gennyf i'w dadansoddi. (Mae'n debyg mai dylanwad swydd weinyddol yn y Llyfrgell Genedlaethol oedd yn rhoi pwyslais mawr ar ystadegau sy'n gyfrifol am hyn i gyd!). Byddaf yn cyfrif y cardiau Saesneg, y rhai dwyieithog, y cardiau Cymraeg a'r nifer fechan sydd mewn ieithoedd eraill. Beth sydd bob tro yn fy rhyfeddu, ac yn fy siomi, yw'r nifer uchel o gardiau Saesneg byddaf yn eu derbyn gan Gymry Cymraeg, ond caf fy nghalonogi gan gardiau dwyieithog a ddaw oddi wrth y di-Gymraeg. Hefyd, mae'n dristwch nad yw rhai mynychwyr addoldai yn dewis gyrru cardiau crefyddol, ac erbyn hyn cardiau seciwlar a yrrir bron yn ddiethriad gan ein sefydliadau cenedlaethol a lleol. Tybed a fydd dadansoddiad eleni yn wahanol?

Richard Huws

# Chwaraeon

## AR Y BRIG



David Griffiths yn sgorio yn erbyn y tîm y Coleg

**Mae pêl-droedwyr Tal-y-bont wedi cael dechrau da i'r tymor ac ar hyn o bryd mae'r tîm ar frig ail adran Cynghrair Aberystwyth a'r cylch.**

O ystyried y diffyg llwyddiant dros y tymhorau diwethaf, mae hyn yn dipyn o gamp. Rhaid rhoi clod i'r cyd-reolwyr Marc Richards ac Anthony Southgate – y ddau wedi rhoi'r gorau i chwarae erbyn hyn – sydd wedi adeiladu tîm ifanc cystadleuol. Maent wedi cyflwyno tri chwaraewr ifanc addawol i'r tîm, sef Gruff Jones, Gwion Evans ac Eilir Huws ac mae'r rhain wedi cydweithio'n dda gyda chwaraewyr mwy profiadol fel Mike South, David Griffiths a Barry Southgate.

Yn ddiweddar curwyd Prifysgol Aberystwyth (3ydd tîm) o bedair gôl i ddim ac yna ar 3 Tachwedd rhoddwyd cosfa go-iawn i dîm Llan-non o chwe gôl i un ar Gae'r Odyn Galch. Yn y gêm hon sgoriwyd y goliau gan Barry Southgate (tair), Carl Pritchard (dwy) a Callum Pritchard.

Mae gan glybiau cryf eraill gemau mewn llaw ac mae tipyn o ffordd i fynd eto, ond gobeithio y bydd y clwb yn dathlu dyrchafiad ar ddiwedd y tymor. Daliwch ati fechgyn!



Mark Kniverton ac Eilir Huws yn ceisio penio'r bêl.

### Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

#### Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur

Noddwyd y wefan hon gan:

Anthony Motors  
Volkswagen



**papurpawb.com**

## EIN CHWARAEWRAIG Y FLWYDDYN

Amryddawn a thalentog yw'r ansoddeiriau i ddisgrifio Nia Wyn Jones, Ardwyn, Tal-y-bont. Mae'r ferch ifanc o Ysgol Penweddig wedi cynrychioli Cymru mewn hoci a phêl-droed ac enwebwyd hi ar gyfer y wobwr 'Chwaraewraig pêl-droed Ifanc y Flwyddyn'.

Holwyd hi gan ein gohebydd am ei phrofiadau dros y misoedd diwethaf, gan ddechrau gyda hoci: "Dros yr haf fues i yn yr Iseldiroedd am wythnos yn rhan o dîm hoci dan 16 Cymru. Roedd hwn yn brofiad anhygoel. Collon ni'r gêm gyntaf 4-3 ond enillom ni'r ail 4-0."

Beth am bêl-droed?

"Dros yr haf hefyd fe es i'r Ffindir gyda'r tîm pêl-droed cenedlaethol dan-16. Roeddem ni yno am wythnos gan chwarae dwy gêm. Collon ni'r gêm gyntaf o wyth i ddim a'r ail o bedair i ddim. Roedd yn amlwg bod merched y Ffindir wedi hen arfer chwarae gyda'i gilydd ond roedd yn brofiad gwych i ni."

"Yn mis Medi ymwelodd tîm cenedlaethol Gwlad Belg â gogledd Cymru gan ein chwarae ddwywaith. Yn y gêm gyntaf collon ni 6-0 ym Mhorthmadog ac yna 8-0 yn stadiwm newydd Bangor. Er y canlyniadau siomedig, cawsom gefnogaeth dda yn y ddwy gêm."

Fe gefaist dy wobrwyo. "Do. Ychydig wythnosau yn ôl cefais lythyr drwy'r post yn f'hysbysu i mi ennill chwaraewraig dan 16 y flwyddyn yn rhanbarth Canolbarth Cymru. Cefais hefyd wahoddiad i fynychu noson wobrwyo pêl-droed Cymru pan fyddwn i a phum merch arall o ranbarthau eraill yn cystadlu am chwaraewraig y flwyddyn dros Gymru gyfan. Aeth Dad (Richard Jones) a minnau i'r achlysur yng ngwesty'r Mercure Holland, Caerdydd, ddechrau Hydref. Yn anffodus wnes i ddim ennill y wobwr ond roedd yn brofiad anhygoel. Cefais gyfarfod â rai o sêr y bêl gron yng Nghymru fel Ashley Williams, capten Cymru, Ian Rush, Craig Bellamy, Chris Coleman, Nathan Blake, a chapten tîm merched Cymru. Roedd y cyfan yn brofiad bythgofiadwy i mi... ac i Dad!"

Longyfarchiadau i Nia. Mae'n amlwg bod gyrfa ddisglair o'i blaen yn ystod y blynyddoedd nesaf ac edrychwn ymlaen at glywed mwy o'i hanes ar dudalennau Papur Pawb yn y dyfodol.



Nia a Richard yn y noson wobrwyo yng Nghaerdydd



Nia yn gwisgo crys coch ei gwlad



#### DIGWYDDIADAU MORLAN:

- C21 yn Morlan (7.30, 14 a 28 Tachwedd)
- Y Nadolig mewn Llun a Cherdd – arddangosfa o luniau a cherddi (19 Tachwedd-21 Rhagfyr)
- Dehongli Nadolig trwy Lun a Cherdd (7.30, 21 Tachwedd). Noson o draffod i gyd-fynd â'r arddangosfa gyda Lyn Lewis Dafis, Damian Walford Davies a Sioned Williams

Manylion llawn ar wefan Morlan:  
[www.morlan.org.uk](http://www.morlan.org.uk)

#### CROESO CYNNES I BAWB!

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH  
01970-617996; [morlan.aber@gmail.com](mailto:morlan.aber@gmail.com)